## Advance warning notice: essential flood defence works on Lamby Way
07/09/2026

The Cardiff Coastal Defence Scheme is being built to protect homes and businesses along this stretch of the city from flooding, now and for decades to come. We are close to a key stage of that work, and we want to give you plenty of notice about a phase that is likely to cause some disruption locally.

From the night of 20 September, we need to close one lane of Lamby Way so that we can install the final section of sheet piles along the riverbank. These piles are a critical part of the defence that will hold the river back during high tides and storms, so getting them in safely matters a great deal to the properties this scheme protects.

We know a closure here is unwelcome, and we have not taken the decision lightly. We spent a long time working through the options with our client, Cardiff City Council, to find a way of doing this that keeps the road open as far as possible. Closing a single lane, rather than the whole road, is the result of that work. It is the only method that lets us install the piles safely while keeping one lane running for the businesses and traffic east of the River Rhymney.

Because the closure runs the full length of Lamby Way, we have to control traffic with temporary lights on the Lamby Way / Rover Way roundabout. You can see a diagram of the proposed traffic management overleaf. There is likely to be some hold-up, particularly coming out of Lamby Way, and you may find longer waits at busy times. If you are able to plan around the area or leave a little extra time for your journey, we would really encourage it.

We are doing what we can to ease this. Trained traffic management staff will be stationed at key points between 7am and 7pm to watch how the junction is coping and adjust the light timings as demand changes through the day. That will not remove the delays, but it should take the edge off the worst of them.

The lights will be needed from 20 September until the end of February 2027. We know that is a long stretch, so we plan to remove them around Christmas to let traffic flow freely over the festive period. That depends on the works reaching a safe enough point for us to take the traffic management away, but it is our firm intention.

We will do everything we can to keep to these dates. They do rely on progress on site, and installing sheet piles that are 12m long can throw up problems we cannot always foresee. If anything changes, we will let you know.

This work is being done so that the homes, businesses and roads behind this defence are safe from flooding for the long term, and we are genuinely grateful for your patience while we see it through. We will update the project website regularly as the work progresses, and we would encourage you to sign up via the site to receive the latest updates so that we can keep you informed. You can find us at www.cardiffcds.com.

Kind Regards

Cardiff Coastal Defence Project Team

## Lluniad Rheoli Traffig / Traffic Management Drawing






**Hysbysiad rhybudd ymlaen llaw: gwaith amddiffyn rhag llifogydd hanfodol ar FforddLamby**
**07/09/2026**

Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Caerdydd yn cael ei adeiladu i ddiogelu cartrefi a busnesau ar hyd y rhan hon o'r ddinas rhag llifogydd, nawr ac am ddegawdau i ddod. Rydym yn agosáu at gam allweddol o'r gwaith hwnnw, ac rydym am roi digon o rybudd i chi am gyfnod sy'n debygol o achosi rhywfaint o darfu yn lleol.

O Nos Sul yr 20fed o Fedi, mae angen i ni gau un lôn ar Ffordd Lamby er mwyn i ni allu gosod y rhan olaf o'r pileri dalen ar hyd glan yr afon. Mae'r pileri hyn yn rhan hanfodol o'r amddiffynfa a fydd yn dal yr afon yn ôl yn ystod llanwau uchel a stormydd, felly mae eu gosod yn ddiogel yn bwysig iawn i'r eiddo y mae'r cynllun hwn yn ei ddiogelu.

Rydym yn gwybod nad yw cau'r lôn yma yn rhywbeth i'w groesawu, ac roedd y penderfyniad yn un anodd i’w wneud. Fe wnaethom dreulio amser hir yn gweithio drwy'r dewisiadau gyda'n cleient, Cyngor Dinas Caerdydd, i ddod o hyd i ffordd o wneud hyn sy'n cadw'r ffordd ar agor gymaint â phosibl. Cau un lôn, yn hytrach na'r ffordd gyfan, yw canlyniad y gwaith hwnnw. Dyma'r unig ddull sy'n caniatáu i ni osod y pileri'n ddiogel gan gadw un lôn ar agor ar gyfer y busnesau a'r traffig i'r dwyrain o Afon Rhymni.

Gan fod y cau yn ymestyn ar hyd Ffordd Lamby i gyd, mae'n rhaid i ni reoli traffig â goleuadau dros dro ar gylchfan Ffordd Lamby /Ffordd Rover. Gallwch weld diagram o'r rheolaeth traffig arfaethedig ar y dudalen gefn. Mae'n debygol y bydd rhywfaint o oedi, yn enwedig wrth ddod allan o Ffordd Lamby, ac efallai y byddwch yn wynebu arosiadau hirach ar adegau prysur. Ni fyddwn yn gwybod yn union sut y bydd y gyffordd yn ymdopi nes bod y rheolaeth traffig yn ei lle ac y gallwn ei gweld yn gweithio. Os gallwch gynllunio o gwmpas yr ardal neu adael ychydig o amser ychwanegol ar gyfer eich taith, byddem yn eich annog i wneud hynny.

Rydym yn gwneud yr hyn a allwn i leddfu hyn. Bydd staff rheoli traffig hyfforddedig wedi'u lleoli mewn mannau allweddol rhwng 7yb a 7yh i wylio sut mae'r gyffordd yn ymdopi ac i addasu amseriad y goleuadau wrth i'r galw newid drwy'r dydd. Ni fydd hynny'n cael gwared ar yr oedi, ond dylai leddfu'r gwaethaf ohono.

Bydd angen y goleuadau o’r 20fed o Fedi tan ddiwedd Chwefror 2027. Rydym yn gwybod bod hynny'n gyfnod hir, felly rydym yn bwriadu eu tynnu o gwmpas y Nadolig i adael i draffig lifo'n rhydd dros gyfnod yr ŵyl. Mae hynny'n dibynnu ar y gwaith yn cyrraedd pwynt digon diogel i ni allu tynnu'r rheolaeth traffig i ffwrdd, ond dyma'n bwriad.

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw at y dyddiadau hyn. Maent yn dibynnu ar gynnydd ar y safle, a gall gosod pileri dalen sy'n 12m o hyd godi problemau na allwn eu rhagweld bob amser. Os bydd unrhyw beth yn newid, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Nid yw hyn yn waith y byddem yn gofyn i chi ei oddef yn ysgafn. Mae'n cael ei wneud fel bod y cartrefi, y busnesau a'r ffyrdd y tu ôl i'r amddiffynfa hon yn ddiogel rhag llifogydd yn y tymor hir, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich amynedd wrth i ni ei gyflawni. Byddwn yn diweddaru gwefan y prosiect yn rheolaidd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, a byddem yn eich annog i gofrestru drwy'r wefan i dderbyn y newyddion diweddaraf fel y gallwn eich cadw yn wybodus. Gallwch ddod o hyd i ni yn www.cardiffcds.com.

Cofion cynnes

Tîm Prosiect Amddiffyn Arfordir Caerdydd